| | |
|---|---|
| **Adroddiad i’r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **9 Hydref 2012** |
| **Swyddog Arwain:** | **Angela Loftus,<br>Rheolwr Polisi Ymchwil a Gwybodaeth** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Bryn Bowker, Swyddog Polisi Cynllunio** |

**Teitl: Adroddiad yn rhoi gwybod am yr ymgynghoriad ar ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd**

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi cyfres o Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG), gyda'r nod o egluro ymhellach y polisïau yn y Cynllun Datblygu Unedol. Mae nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd (WHS SPG) Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte hefyd yn ceisio ymhelaethu ar bolisïau’r Cynllun Datblygu Lleol, pe byddai'r cynllun yn cael ei ystyried yn un 'cadarn' gan yr Arolygiaeth Gynllunio a'i fabwysiadu'n ffurfiol i ddisodli'r Cynllun Datblygu Unedol.

1.2. Mae gofyn penderfynu a fydd y canllawiau WHS SPG yn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol er mwyn eu defnyddio'n ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ceisiadau cynllunio.

1.3. Bwriad arall yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Aelodau am yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd ynghylch y canllawiau WHS SPG, ac amlinellu unrhyw newidiadau dilynol sy'n ofynnol i'r ddogfen. Parodd yr ymgynghoriad ar gyfer Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd o 26 Medi i 16 Rhagfyr 2011.

1.4. Bwriedir y bydd y canllawiau WHS SPG yn helpu'r cyhoedd, datblygwyr, Cynghorau Tref a Chymuned, Cynghorwyr, a Swyddogion i ddeall beth yw'r goblygiadau ar gyfer datblygiad a gyflawnir yn Safle Treftadaeth y Byd a'r 'glustogfa' o'i amgylch.

1.5. Mae'n bwysig nodi nad yw'r Cyngor, wrth ystyried mabwysiadu'r canllawiau WHS SPG, yn penderfynu a ddylai Safle Treftadaeth y Byd a'r Glustogfa fodloni; cafodd hyn ei benderfynu a'i ddynodi wedyn yn ôl yn 2009 ac ni ellir ei newid. Ers 2009, bu'r effaith y byddai datblygiad yn ei chael ar Safle Treftadaeth y Byd a'r Glustogfa yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Mae hefyd yn bwysig ychwanegu nad yw Safle Treftadaeth y Byd a'r Glustogfa'n effeithio ar ba ddatblygiad y gellir ei gyflawni heb ganiatâd cynllunio (hawliau datblygu a ganiateir), nac ychwaith yn cyflwyno'r angen am Ddatganiadau Dylunio a Mynediad (gofyniad cenedlaethol a gyflwynwyd yn 2009).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae gofyn penderfynu a ddylid mabwysiadu'r canllawiau WHS SPG yn ffurfiol er mwyn eu defnyddio'n ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Trafodwyd y canllawiau WHS SPG gydag Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ar 19 Medi.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau'n mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd yn ffurfiol i'w defnyddio i lywio penderfyniadau ceisiadau cynllunio.

## 4. Manylion yr adroddiad

*Cefndir.*

4.1. Rhoddwyd statws Safle Treftadaeth y Byd i Draphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte gan Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) ym mis Mehefin 2009. Cafodd y safle'r dynodiad oherwydd cydnabyddir bod iddo 'Werth Byd-eang Eithriadol' sy'n bwysig i holl ddynoliaeth. Yn rhan o'r dynodiad hwn, sefydlwyd 'Clustogfa' i ddiffinio pa rannau o'r ardal gerllaw sy'n cyfrannu at 'Werth Byd-eang Eithriadol' Safle Treftadaeth y Byd.

4.2. Paratowyd y canllawiau WHS SPG ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Swydd Amwythig. Mabwysiadodd Wrecsam y canllawiau hyn yn ffurfiol ym mis Mehefin 2012. Amcan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n gyfrifol am warchod Safle Treftadaeth y Byd yw rheoli datblygiad mewn modd cadarnhaol sy'n cefnogi'r weledigaeth a amlinellir yn y Cynllun Rheoli.

4.4. O brofiad ymarferol, mae absenoldeb dogfen ganllawiau wedi'i gwneud yn anodd i ddatblygwyr ac ymgeiswyr ganfod beth sy'n ofynnol o ganlyniad i'r dynodiad WHS a Chlustogfa. Yn rhan o ddyletswydd y Cyngor i warchod Safle Treftadaeth y Byd, mae UNESCO yn mynnu bod y tri Chyngor i gyd yn cyhoeddi'r ddogfen hon yn rhan o’r dynodiad. Hefyd, gan fod y Safle’n croesi tair ardal awdurdod, mae’n bwysig bod dogfen ar y cyd yn rhoi cyngor cyson.

4.5. Mae'r ddogfen hon yn ceisio egluro'n syml yr hyn y byddai'n rhaid i ddatblygwyr ei gyflwyno gyda cheisiadau cynllunio, a'r hyn y dylai'r datblygiad ei hun ystyried ei ymgorffori er mwyn lleihau'r effaith cymaint â phosibl a bod yn nodwedd gyflenwol mewn perthynas â Safle Treftadaeth y Byd. Hefyd i raddau, mae'r ddogfen yn ceisio pwysleisio'r agweddau cadarnhaol ar ddynodiad y Safle drwy amlygu’r modd y gallai’r economi leol elwa ar dwristiaeth.

*Ymgynghoriad.*

4.6. Cytunwyd ar gynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol, y cwmpas a'r bwriad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio ym mis Awst 2011.

4.7. Parodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd o 26 Medi i 16 Rhagfyr 2011. Roedd y fformat ar gyfer y broses ymgynghori o ran templed sylwadau, a strwythur cyfarfodydd gyda'r cyhoedd, yn fwriadol o agored er mwyn cael ystod ehangach o sylwadau.

4.8. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys hysbysiadau cyhoeddus yn Denbighshire Free Press, papurau lleol, hysbyseb yn Llais y Sir, defnyddio gwefan y cyngor a llythyr at fwy na 200 o sefydliadau/unigolion, gan gynnwys: Cynghorau Tref a Chymuned; Cynghorwyr; asiantau lleol ac undebau ffermwyr, gan roi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad a dweud wrthynt sut i ymateb. Roedd copïau o'r ddogfen ar gael yn Llyfrgell Llangollen a'r Siop Un Stop.

4.9. Cynhaliwyd tair sesiwn 'galw heibio' anffurfiol a oedd yn gyfle i'r cyhoedd drafod cynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol gyda swyddogion. Cynhaliwyd y sesiynau hyn rhwng 3pm ac 8pm ar: 3 Hydref yn Neuadd Blwyf y Waun, 24 Hydref yng Nghanolfan Gymunedol Trevor, a 15 Tachwedd yn Neuadd Tref Llangollen. Yn ogystal, trefnodd Sir Ddinbych gyfarfod anffurfiol i asiantau cynllunio a ffermwyr/tirfeddianwyr lleol i drafod cynnwys a goblygiadau'r ddogfen. Yn y cyfarfod hwn roedd aelod ward yn bresennol, yn ogystal â chynrychiolwyr undeb ffermwyr a thros 70 o bobl. Bu Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn trafod y ddogfen yn bersonol gyda'r Grŵp Ardal Aelod a chyda Chyngor Tref Llangollen a Chyngor Cymunedol Llandysilio.

4.10. Cafodd y Cyngor 10 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a gododd y pethau canlynol:

- Ansicr beth yw ystyr 'ymdeimlad o gyrraedd'.
- Dylai fod rhagdybiaeth yn erbyn tyrbinau gwynt.
- Dylid cynnwys rhan o Fro Pengwern yn y glustogfa.
- Dryswch ynghylch Tabl 1- Sefyllfaoedd Datblygu Nodweddiadol.
- Teimlo bod angen gosodiad symlach ar y ddogfen/wedi'i arwain gan fath o gais.
- Cafwyd nifer o sylwadau manwl gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru am estyn yr AHNE ac egluro ynghylch SoDdGa ac ACA.
- Pryderon y bydd y dynodiad yn ychwanegu costau drwy gyflwyno gofynion newydd ac atal datblygiad yn yr ardal.

4.11. Mae ymatebion manwl i'r ymgynghoriad wedi'u crynhoi a'u cynnwys yn atodiad 1 sydd hefyd yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw welliannau dilynol i'r canllawiau WHS SPG. Mae'r sylwadau gwreiddiol ar gael i'w gweld ar gais gan y tîm Polisi Cynllunio. Mewn ymateb i awgrym gan Gyngor Tref Llangollen, mae swyddogion wedi drafftio rhestr wirio ceisiadau Safle Treftadaeth y Byd anffurfiol i ymgeiswyr, sydd ynghlwm yn atodiad 2.

4.12. Mae'r newidiadau allweddol yn y ddogfen yn cynnwys gosod cyfeiriad at 'leoli' yn nhabl 1, sefyllfa 1, ychwanegu cyfeiriad at 'barciau a phaneli solar' at dabl 1, sefyllfa 4, ac eglurhad ynghylch ACA a SoDdGA Afon Dyfrdwy yn gyffredinol ym mharagraff 8.1. Mae copi terfynol o'r canllawiau WHS SPG

ynghlwm yn atodiad 3. Byddai’r anodiadau hyn yn cael eu gwaredu pe byddai’r Aelodau’n dewis mabwysiadu’r canllawiau WHS SPG yn ffurfiol. Dylai’r rhestr wirio ceisiadau Safle Treftadaeth y Byd anffurfiol i ymgeiswyr helpu hefyd i symleiddio’r ddogfen mewn taflen 1 dudalen.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Ni fyddai mabwysiadu'r canllawiau WHS SPG yn ffurfiol yn cyfrannu'n uniongyrchol at unrhyw un o Flaenoriaethau Corfforaethol 2009-2012, nac at unrhyw un o Flaenoriaethau Corfforaethol drafft 2012-17. Fodd bynnag, byddai'r ddogfen yn gwella profiad y cwsmer o wasanaeth cynllunio Sir Ddinbych ac yn sicrhau ar yr un pryd fod datblygiad yn cael ei reoli'n gadarnhaol i warchod ased sy'n werthfawr i'r holl fyd, a'r Sir yn ddigon ffodus o feddu arno. Mae hefyd yn werth nodi bod cyhoeddi a mabwysiadu dogfen canllawiau cynllunio i'r Safle yn gyfrifoldeb y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ysgwyddo yn rhan o'r dynodiad.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Nid oes unrhyw adnoddau ychwanegol yn ofynnol oherwydd bydd gwybodaeth yn cael ei chyflwyno a'i hasesu yn rhan o gais cynllunio. Gellir cynhyrchu copïau papur o'r canllawiau WHS SPG o fewn y gyllideb bresennol, a bydd copi electronig o'r ddogfen ar gael ar y wefan.

6.3. Ni ystyrir y byddai'r ddogfen yn arwain at niwed annerbyniol i fioamrywiaeth na'r amgylchedd naturiol.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

7.1. Fel yr amlinellir yn adran 4.6 o'r adroddiad, cynhaliwyd proses ymgynghori lawn.

7.2. Rhoddwyd gwybod i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio am y canllawiau WHS SPG ac maen nhw wedi rhoi adborth am y broses ymgynghori yng nghyfarfod 19 Medi.

7.3. Yn ystod y Pwyllgor Cynllunio, cofrestrodd aelodau ward Llangollen eu pryderon y byddai'r Safle a'r glustogfa gysylltiedig yn rhwystro datblygiad economaidd i'r ardal leol. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau WHS SPG yn cyflwyno unrhyw ofynion newydd ar gyfer datblygu yn yr ardal, ac nid yw'r ddogfen ei hun yn ceisio atal datblygiad.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg yn yr adroddiad.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1. Y prif risg sy'n gysylltiedig â mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yw y gallai datblygwyr wrthwynebu eu defnyddio drwy'r broses apelio. Er mwyn

lleihau'r risg hwn, mae Swyddogion wedi ystyried yn drwyadl y sylwadau a wnaethpwyd gan ddatblygwyr ac wedi ceisio rhoi eglurhad ychwanegol lle'n bosibl. Ar ôl i'r ddogfen gael ei mabwysiadu, bydd y canllawiau WHS SPG yn cael eu hadolygu'n flynyddol a gellid mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi drwy ddiwygio'r ddogfen.

9.2. Os na fydd canllawiau WHS SPG yn cael eu mabwysiadu, mae'r swyddogion wedi dweud y gallai datblygwyr ac ymgeiswyr gamddeall beth yw'r gofynion ar gyfer ceisiadau cynllunio yn yr ardal gymhwyso. Bwriedir y bydd y ddogfen hon yn cyflymu'r broses ymgeisio ac felly'n lleihau costau drwy roi cyngor clir yn uniongyrchol i ymgeiswyr.

9.3. Pe na fyddai'r canllawiau WHS SPG yn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol, byddai'r Cyngor yn methu yn ei gyfrifoldeb i gyflenwi'r ddogfen hon sy'n ofynnol gan UNESCO ac ymrwymiadau y mae'r Cyngor eisoes wedi cytuno iddynt yng Nghynllun Rheoli'r Safle.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

10.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.